



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council



Safonau'r Gymraeg

Adroddiad Blynyddol 2023-2024

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

Os bydd angen yr wybodaeth hon arnoch chi mewn print mwy neu fformat arall, cysylltwch
â'r Tîm Polisi Corfforaethol ar 07805 771506 neu e-bostiwch: policy@npt.gov.uk

Cyflwyniad



Mae'r ddogfen hon, ein hadroddiad blynyddol diweddaraf, yn amlygu gwaith a wnaed i barhau i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg fel y'u cymhwysir i'r Cyngor.

Fe'n calonogwyd gan y cynnydd a wnaed mewn nifer o feysydd, fel yr amlygwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod y flwyddyn.

Fodd bynnag, mae ein taith at gydymffurfio yn dal yn heriol, yn arbennig gan fod y nifer o siaradwyr Cymraeg sy'n abl ac yn barod i ddefnyddio'u sgiliau iaith yn y gwaith yn dal yn gyfyngedig.

Nawr bod ein Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg (WLPS) ar waith, i gyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP), rydyn ni'n hyderus y bydd cynnydd o ran ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, derbyn yr iaith, hyder i'w siarad a defnydd ohoni yn dod yn rhan o'n bywydau beunyddiol.

Er ein bod yn cydnabod nad yw pawb am ddefnyddio eu sgiliau iaith yn y gwaith, mae elfen o dangofnodi yn bodoli hefyd, a diffyg hyder ymhlith y staff, ac fe hoffen ni ddeall hynny'n llawnach trwy sgwrsio â'r staff, er ein bod yn sylweddoli y gallai hynny gymryd amser.

Mae llawer i'w gyflawni o hyd cyn i gydymffurfio ddod yn ail natur ym mhob agwedd ar ein bywydau, ond rydyn ni ar y llwybr cywir i gyflawni hynny – marathon yw hwn, nid ras wib, ond sut bynnag cyrhaeddwn ni ben y daith, dyna yw'r nod.

Cefndir

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi trosolwg o sut rydyn ni fel Cyngor wedi gweithredu Safonau'r Gymraeg, ac mae'n cynnwys gwybodaeth am feysydd penodol: nifer y staff sy'n siarad Cymraeg a gofynion iaith swyddi gwag, fel sy'n ofynnol o dan Fesur y Gymraeg (2011) a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

Mae'r safonau a gymhwyswyd i'r Cyngor o dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi'u cynnwys yn ein [hysbysiad cydymffurfio](#).



Atebolrwydd

Y Cyngor sy'n gyfrifol yn y pen draw am weithredu'r safonau, a'r Prif Weithredwr sy'n gyffredinol gyfrifol am sicrhau bod trefniadau yn eu lle i sicrhau cydymffurfiaeth. Ar ben hynny, rydyn ni'n cydnabod bod gan bob aelod o staff ran i'w chwarae er mwyn gweithredu'r safonau'n llwyddiannus.

Mae ein trefniadau llywodraethu yn gofyn bod yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei fonitro gan y Cabinet, gan sicrhau felly bod cynnydd parhaus o ran perfformiad.

Ar adeg ysgrifennu hwn rydym wrthi'n adolygu ac yn diwygio ein trefniadau trosolwg i sicrhau eu bod yn parhau mor effeithiol â phosibl. Y bwriad yw sefydlu Panel Aelodau, ynghyd â Grŵp Swyddogion i helpu i gadw golwg ar yr agenda cydraddoldeb, gan gynnwys y Gymraeg, a'i symud yn ei blaen ar draws ein meysydd gwasanaeth. Bydd Grwpiau Cydraddoldeb Lleol yn parhau'n rhan allweddol o'r trefniadau hyn, ac yn rhan o'r Panel Aelodau yn ogystal â chyfrannu trwy fewnwelediad amhrisiadwy yn y Grŵp Swyddogion.

Mae Grŵp Swyddog y Gymraeg (GSyG) yn cefnogi gweinyddu a gweithredu'r safonau, ac yn helpu i ddatrys yn gynnar unrhyw anawsterau a all godi, mae'n cefnogi'r staff i gyflwyno gwasanaethau yn unol â'r dyletswyddau a roddir ar y Cyngor, yn ogystal â helpu i hyrwyddo'r iaith.

Mae'r holl ddeunyddiau gwybodaeth a chymorth sy'n ymwneud â gweithredu safonau'r Gymraeg ar gael ar ein mewnwyd, Cyswllt CnPT. Cynyddir ymwybyddiaeth o ofynion y safonau trwy'r Grŵp Rheoli Corfforaethol, timau rheoli'r cyfarwyddiaethau, a chyfarfodydd tîm, yn ogystal â thrwy fecanweithiau cyhoeddusrwydd mewnol arferol y Cyngor, e.e. sianeli cyfathrebu Viva Engage, Uchafbwyntiau Cyswllt CnPT (y prif storïau newyddion), y llythyr newyddion ar-lein, 'In the Loop' a Sway, cylchlythyr y staff.

Cydymffurfio a Hyrwyddo

Comisiynydd y Gymraeg: cydymffurfio â safonau'r Gymraeg

Ym mis Mawrth 2024 fe gwrddon ni â Swyddog Pennu Safonau a Chydymffurfiaeth Comisiynydd y Gymraeg i drafod canlyniad yr ymarferiad monitro cydymffurfiaeth.

Aseswyd detholiad o feysydd gweithgaredd, yn cynnwys: galwadau ffôn; hunaniaeth gorfforaethol; y wefan; cyhoeddusrwydd a hysbysebu; dogfennau; ffurflenni; swyddi.

Aseswyd bod ein cydymffurfiaeth yn 'dda', yn arbennig mewn perthynas â galwadau ffôn, hunaniaeth gorfforaethol (gan gynnwys ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol) a chydymffurfio â'r holl safonau 'ategol'.



Er bod y rhan fwyaf o'r adborth a gafwyd yn gadarnhaol, roedd ambell achos lle roedd diffygion, gan gynnwys y canlynol;

- nid oedd rhai dogfennau yn cynnwys datganiad eu bod ar gael yn Gymraeg yn ogystal
- achosion lle roedd dolenni mewn ffurflen Gymraeg yn arwain i ddogfen Saesneg
- o'r 15 tudalen a adolygwyd ar y we, roedd rhywbeth ar goll mewn 5 ohonynt, e.e. testun, dolenni ac ati
- ymddangosai fod nifer o anghysondebau cydymffurfiaeth ymhlith y 15 swydd wag a adolygwyd

Bydd rhoi sylw i'r materion uchod yn rhan allweddol o'n gwaith yn ystod y misoedd nesaf.

Yn ystod y flwyddyn, rydyn ni wedi dod yn ymwybodol o achosion lle mae cydymffurfio â'r safonau wedi cael effaith ar gyhoeddusrwydd ac ymgysylltiad â'n preswylwyr. O ganlyniad, rydym ni'n gweithio gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i roi sylw i rai o'r rhain: er enghraifft, cydbwysu cydymffurfiaeth a chreadigrwydd wrth ddefnyddio fideos cyhoeddusrwydd; defnyddio cwestiynau priodol i fodloni gofynion y safonau llunio polisi, ond sicrhau nad yw'r preswylwyr yn cael eu llethu ac yn colli diddordeb.

Ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg

Cynhaliwyd yr ymgyrch rhwng 27 Tachwedd ac 11 Rhagfyr 2023, ac er nad oedd modd i ni hyrwyddo'r ymgyrch yn benodol i'r cyhoedd yn gyffredinol, roedden ni eisoes wedi bod yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ymhlith ein staff ers dechrau'r flwyddyn.

Mae manylion am ddigwyddiadau cymdeithasol a gweithgareddau, fideos byr a gair yr wythnos, cyfleoedd hyfforddi sgiliau iaith i ddysgwyr newydd a rhai sydd am loywi iaith, yn ogystal â sesiynau ymwbyddiaeth iaith a hyfforddiant, a chefnogaeth cymheiriaid ar ffurf siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i gyd wedi dechrau darparu sylfaen sy'n annog defnydd o'r Gymraeg ymhlith y staff, wrth ymwneud â nhw, a chanddyn nhw.

Roedd ein Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg a'n Cynllun Strategol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg fel ei gilydd yn rhagfynegi ethos yr ymgyrch trwy eu hamcanion/deilliannau a'u camau gweithredu.

Using Welsh at Work with Health & Social Care, Early Years & Childcare Sectors

Following the link from Social Care Wales for further information and guidance on the below and much more:

- Why is using Welsh at work important?
- Welsh Language Policy and Legislation
- What is 'More than just words'?
- How can I make the active offer?

Using Welsh at work | Social Care Wales



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Using Welsh at work

Find out how we promote the use of the Welsh language in the health and social care sector in Wales, what resources are available to support employers and...

socialcare.wales

Defnydd o'r Gymraeg yn fewnol

Yn ystod y flwyddyn 2023-2024 rydym wedi gweld cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol, er mai cynnydd bychan ydyw; mewn sgysiau gwaith a chymdeithasol; mewn cyfarfodydd; ac yn fwyaf calonogol, postadau dwyieithog digymell ar ein hamrywiol sianeli Viva Engage.

Gan gydnabod y duedd gynyddol hon a chydag awydd i'w hannog a'i hybu, rhoddwyd cyfle i ymatebwyr ein Harolwg newydd blynnyddol Ymgysylltu â Chyflogeion (Mawrth 2024) ddewis ymateb trwy holiadur Cymraeg neu Saesneg. Bydd yr arolwg yn dod i ben ddiwedd Mai, a bydd y staff yn derbyn adborth yn y ddwy iaith. Cafwyd 658 o ymatebion, 6 ohonynt yn Gymraeg; ein nod yw cynyddu'r ffigur hwn ym mhob arolwg i'r dyfodol.

Parhewch i Sgwrsio Am Weithio i Gyngor CnPT Arolwg Gweithwyr 2024

Eich cyfle i wneud sylwadau a dylanwadu pethau sy'n effeithio arnoch yn y gwaith!

Dweud eich dweud heddiw!



Bydd yr arolwg yn cau am hanner nos **ddydd Gwener 31 Mai 2024**



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Safonau Cyflwyno Gwasanaeth

Cyfarfodydd y Cyngor

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor yn hybrid, gyda'r cyfranogwyr yn dewis bod yn bresennol yn Siambr y Cyngor neu fewngofnodi o bell.

Wrth i feddalwedd cyfieithu Cymraeg Microsoft Teams ddod yn weithredol, rydym yn cynnig cyfieithu Cymraeg ar y pryd i bawb sy'n cyfranogi yng nghyfarfodydd y Cyngor (p'un a yw hynny wyneb yn wyneb neu o bell), ac mae hynny wedi'i gyfuno'n llawn â chyfarpar clyweledol hybrid a gwegastio'r Cyngor, Public-I.

Gohebiaeth yn Gymraeg

Er bod cyflwyno ein ffurflen ar-lein i ddewis gohebiaeth yn Gymraeg yn unig wedi lleihau nifer y ceisiadau trwy gamgymeriad, nid yw wedi'u dileu yn llwyr. Gwaetha'r modd, ni lwyddwyd i gynnal ymarferiad glanhau data yn ystod 2023-2024, ond ein nod yw gwneud hynny erbyn Medi 2024.

Mae 105 o bobl wedinodi eu bod amdderbyn gohebiaeth gennym ni yn Gymraeg.

Safonau Llunio Polisi

Mae gofynion y safonau llunio polisi wedi'u hymgorffori i fframwaith Asesiad Effaith Integredig (AEI) y Cyngor. Rhoddir y broses asesu effaith ar waith ar gyfer pob polisi/menter newydd a diwygiedig, ac felly caiff cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, yn ogystal â pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, eu hystyried bob tro. Mae canllawiau cynhwysfawr a ffurflenni cysylltiedig ar gael ar hyn o bryd i'r holl staff ar Cyswllt CnPT.

Diweddarwyd y canllawiau hyn a'r ffurflenni cysylltiedig yn hydref 2023 i gydymffurfio â'r camau gorfodi oedd yn rhan o hysbysiad penderfyniad Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â chwyn CS 114 (i gael rhagor o fanylion, gweler yr adran Cwynion ar dudalen 16).


Ar ben hynny, mae hyfforddiant ar ofynion y safonau llunio polisi yng nghyswllt dogfennau ymgynghori yn cael ei drefnu ar gyfer swyddogion perthnasol yn ystod 2024.



Safonau Gweithredu

Yn ystod 2023-2024 gwelwyd gostyngiad yn nifer y staff a nododd fod ganddynt sgiliau Cymraeg, ac eithrio'r categori siaradwyr cymharol rugl, lle'r arhosodd y niferoedd yr un fath (74). Bu gostyngiad hefyd yn nifer y dysgwyr Cymraeg yn ystod y cyfnod; 346 o gymharu â 367 yn ystod 2022-2023.

Ceir dadansoddiad o'r sgiliau Cymraeg fesul cyfarwyddiaeth/maes gwasanaeth ar dudalen 15, a cheir cymhariaeth o'r sgiliau iaith ers 2021-2022 ar dudalen 19.



Cyfeirlyfr cyflogeion sy'n siarad Cymraeg – nodwyd 125 aelod o staff yn ein cyfeirlyfr cyflogeion sy'n barod/abl i ddefnyddio'u sgiliau iaith fel rhan o'u gwaith.

Rydym ni'n gweithio i gyflwyno fframwaith fydd o gymorth wrth hunanasesu sgiliau iaith ac o ganlyniad o bosibl yn rhoi hwb i'r niferoedd yn y cyfeirlyfr. Y gobaith yw y bydd y gwaith hwn yn dwyn ffrwyth yn ystod 2024-2025.


Gwybodaeth, a deunydd ategol – mae canllawiau a deunydd ategol arall ar ddefnyddio a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar gael i'r holl staff ar dudalennau Cymraeg Cyswllt CnPT. Mewn ymateb i adborth o arolwg (a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2023) ynghylch hwylustod cyrchu canllawiau a gwybodaeth yn Gymraeg, cafodd fideo esboniadol ei gynhyrchu a'i gyhoeddi i gynorthwyo staff oedd ddim yn ymwybodol bod canllawiau ar gael yn Gymraeg. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r fideo ar ein sianel Viva Engage ar gyfer Safonau'r Gymraeg.

Ydych chi angen help ar gyfer dod o hyd i Ganllawiau Cymraeg??

Peidiwch ag anobeithio... mae llawer o wybodaeth ar NPTConnect... bydd y fideo yma'n dangos i chi ble i ddod o hyd iddo!!

Do you need help with finding Welsh Language Guidance??

Don't despair...there's lots of information on NPTConnect... this video will show you where to find it!!



Sianeli Cyfathrebu Viva Engage (Yammer gynt)

Gwaetha'r modd, dydyn ni ddim wedi defnyddio ein sianeli cyfathrebu, ein Safonau a'n Canllawiau o ran y Gymraeg a'n Siaradwyr a'n Dysgwyr Cymraeg mor rheolaidd ag y byddem wedi hoffi, oherwydd capasiti cyfyngedig o ran staff.

Rydym wedi ymdrechu i roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau a gweithgareddau dysgu, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg, er enghraifft sesiynau 'Hyder-ish' sy'n cael eu hwyluso gan Fenter Iaith Castell-nedd Port Talbot, boreau coffi yn ogystal â sioeau yng Nghanolfan y Celfyddydau, Pontardawe, ac ar S4C; erthyglau a fideos i annog defnydd o'r Gymraeg, er enghraifft 'Geiriau Cymraeg yr Wythnos' a 'Diwrnod Shwmae Su'Mae'; gan rannu gwybodaeth yn ogystal â chefnogi dysgwyr, gyda'r olaf yn cael ei ddatblygu'n organig, yn hytrach na'i orgynllunio.





Hyfforddiant

Mae ein rhaglen hyfforddi gwbl gynhwysol wedi cael ei diwedddaru i gynnwys ystod o adnoddau sydd ar gael i ddysgwyr Cymraeg, gan gynnwys y canllaw 'Help i ddewis cwrs', ac adnoddau i gefnogi'r dysgu, gan gynnwys apiau symudol, podlediadau, cerddoriaeth, teledu, ac adnoddau i'w defnyddio gyda phlant a phobl ifanc.


Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys gwybodaeth am yr ystod o gyrsiau sy'n cael eu darparu gan ein Canolfan Cymraeg i Oedolion leol a Chanolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg. Caiff y cyrsiau eu hysbysebu ar ein cymunedau cyfathrebu mewnol i staff, Viva Engage, gan gynnwys tudalen yn benodol ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg, a hefyd ar 'Cyswllt CnPT' ar ein Mewnrwyd, lle mae ardal benodedig ar gyfer hyfforddiant Cymraeg.

Eleni eto rydyn ni wedi cyhoeddi ein rhaglen hyfforddi'n electronig, gan ddefnyddio Book Creator, ac mae modd ei gweld [yma](#).

Yn 2023-24:

- Cofrestrodd 18 o ddysgwyr newydd ar amrywiol gyrsiau Cymraeg.
- Cwblhaodd 3 dysgwr fodiwlau hyfforddi.
- Mae 104 o ddysgwyr yn dal wedi cofrestru ac ar wahanol gyfnodau o ran cwblhau hyfforddiant.
- Mae 1,680 o staff wedi cwblhau'r cwrs e-Ddysgu gorfodol ar y Gymraeg yn CnPT.

At ei gilydd y cyrsiau Cymraeg ar-lein sy'n cael eu darparu gan Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg yw'r opsiwn mae'r staff yn ei ffafrio. Yn ôl yr adborth gan y dysgwyr, y rheswm am hynny yw bod modd i'r dysgwyr gwblhau'r cyrsiau ar-lein wrth eu pwysau, ar gyflymdra sy'n addas iddyn nhw. Mae dysgu ar-lein yn hunangyfeiriedig, sy'n golygu ei fod yn gallu cyfrannu at gydbwysedd gwaith a bywyd. Roedd adborth pellach a gafwyd gan y dysgwyr ynghylch y cyrsiau Cymraeg ar-lein yn nodi, er bod llawer o fanteision, a'u bod yn gyrsiau da iawn, bod cyfleoedd i sgwrsio yn y gwaith ac at ddibenion gwaith yn brin, ac roedd teimlad y byddai'r pethau hynny'n cryfhau'r broses ddysgu.



Hyfforddiant (parhad)

Yn ystod y flwyddyn nesaf, i wrthweithio hyn, byddwn ni'n ystyried ailsefydlu'r grŵp rhwydwaith 'Sgwrs', oedd yn cwrdd yn rheolaidd cyn pandemig COVID, a bydd cylchlythyron y Fenter Iaith yn cael eu rhannu'n rheolaidd gyda'r grŵp dysgwyr a siaradwyr. Mae'r cylchlythyr hwn yn cynnwys y cyfleoedd diweddaraf i staff gael profiad dwys o ddefnyddio a dysgu'r iaith ar draws Castell-nedd Port Talbot.

Yn 2023-24 cynhaliodd ein hadran Archwilio fewnol adolygiad o'r hyfforddiant gorfodol, a rhoi argymhellion blaenoriaeth uchel i uwch-reolwyr er mwyn sicrhau bod staff yn cwblhau'r hyfforddiant gorfodol angenrheidiol. Mae hyn yn cynnwys y modiwl e-Ddysgu 'Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot'. Mae'r archwiliad wedi arwain at gynydd sylweddol yn nifer y staff sy'n cwblhau'r pecyn e-Ddysgu. Yn ystod 2023-24, diweddarwyd y modiwl e-Ddysgu i gynnwys gwybodaeth ychwanegol ynghylch Safonau'r Gymraeg.

Yn 2023-24, cwblhaodd 1,680 aelod o staff y modiwl e-Ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Y flwyddyn flaenorol, dim ond 231 aelod o staff gwblhaodd y modiwl, ac mae hynny'n profi bod yr archwiliad yn effeithiol iawn. Y gobaith yw y bydd y gweithlu'n fwy gwybodus ynghylch gofynion cyfle cyfartal i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Mae myfyrwyr gwaith cymdeithasol sydd ar secondiad gyda'r Cyngor neu'n treulio amser yno yn cael cyfarwyddyd i gwblhau'r e-Ddysgu 'Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot' er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r defnydd o'r Gymraeg ar draws Castell-nedd Port Talbot ac wrth gyflwyno'r 'Cynnig Gweithredol'. Mae Myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol ac Addysgwyr Ymarfer hefyd yn derbyn hyfforddiant ar y Cyd-destun Cymreig fel rhan o'u Cyfleoedd Dysgu Ymarfer.

Mae gofyn bod gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso sy'n cychwyn ar ail flwyddyn o ymarfer yn dilyn rhaglen gyfnerthu sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Partneriaeth 'Porth Agored', y mae'r Cyngor yn bartner ynddi, sy'n gyfrifol am lunio, datblygu a gweithredu'r rhaglen gyfnerthu, ac mae'n gweithio ar y cyd â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Yn mis Chwefror 2024 llwyddwyd i lenwi swydd wag y Cydlynnydd Addysg Gwaith Cymdeithasol. Mae'r unigolyn sydd bellach yn cyflawni'r rôl honno yn medru'r Gymraeg ac yn gallu darparu Addysg Ymarfer trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n eiriol yn weithredol dros y Gymraeg ac ymwybyddiaeth o'r iaith ar draws prosesau ac ymarfer, yn ogystal â chefnogi'r Tîm Dysgu, Hyfforddi a Datblygu gydag unrhyw ofynion o ran y Gymraeg.

Mae gan ein Tîm Dysgu, Hyfforddi a Datblygu nifer o gyhoeddiadau, gan gynnwys llyfrau ymadroddion, gwerslyfrau, geiriaduron a darllen ysgafn, y mae modd eu benthg i ychwanegu at gyrsgau hyfforddi iaith a'u hategu.

Mae ein cyfnod sefydlu corfforaethol yn cynnwys gwybodaeth am adnoddau Cymraeg ac yn annog rheolwyr i drafod a gwneud cyflogaion newydd yn ymwybodol o safonau'r Gymraeg ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Mae rhannau eraill o'r sefydlu yn cynnwys trefnu llofnod dwyieithog, ateb y ffôn yn ddwyieithog etc.

Safonau Hyrwyddo

Cafodd ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg ei diwygio a'i chyhoeddi ym mis Medi 2023.

Er bod y Strategaeth yn cyflwyno'n hymateb i ofynion safon 145 ar gyfer y Gymraeg, ac yn cyd-fynd â'n Cynllun Strategol cyfredol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg, mae'n mynd ymhellach na hynny. Ei nod yw treiddio i wead ein cymdeithas, o helpu i sicrhau bod cyrsiau iaith ar gael i bawb sy'n dymuno dysgu, a darparu amgylchedd lle mae modd defnyddio'r iaith, i ddathlu a chynyddu ymwybyddiaeth o le'r Gymraeg yn ein treftadaeth a'n diwylliant, ein bywydau beunyddiol a'r hyn y gallwn ei gynnig i ymwelwyr.

Mae'r Gymraeg yn fwy na iaith – mae'n rhan o'n hanfod – p'un a gawsom ein geni yma neu beidio. Mae'n rhan o wead ein bywydau – hyd yn oed os na welwn hynny ar unwaith; mae enwau lleoedd, enwau cyntaf a dywediadau lleol ein hardal i gyd wedi'u gwreiddio yn y Gymraeg.

Strategaeth yw hon a fydd yn helpu i godi proffil y Gymraeg, yn helpu i sicrhau bod pobl yn gallu cyfranogi yn eu dewis iaith yn y gymdeithas, ac yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer datblygu amgylchedd lle gall pobl barchu, derbyn ac ymfalchïo yn y Gymraeg.

Swyddi Gwag ar gyfer 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024

Gofynion o ran sgiliau Cymraeg	Nifer y swyddi	Canran y swyddi
Hanfodol	22	2.5%
Dymunol	123	14%
Angen dysgu Cymraeg	4	0.5%
Dim angen sgiliau Cymraeg	716	83%



Sgiliau Iaith Staff

Cyfarwyddiaeth/Gwasanaeth	Siaradwr ac Ysgrifennwr Gweddol Rugl	Siaradwr Gweddol Rugl	Siaradwr ac Ysgrifennwr Rhugl	Siaradwr Rhugl	Dysgwr Cymraeg	Ychydig neu ddim gwybodaeth	Gwell gennyf beidio â dweud	Heb ei Adrodd	Cyfanswm
Prif Swyddogion	0	0	1	0	1	3	0	0	5
Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes									
Cynhwysiant a Phartneriaethau Blyneddol Cynnar	6	3	8	2	32	95	4	30	150
Datblygu Addysg	8	3	18	3	32	141	7	48	212
Twristiaeth Hamdden, Treftadaeth a Diwylliant	1	1	6	0	13	92	0	9	113
Gwasanaethau Cefnogi a Thrawsnewid	8	4	20	9	18	314	22	148	395
Amgylchedd ac Adfywio									
Peirianeg a Thrafnidiaeth	3	4	4	2	10	97	2	34	122
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	3	4	1	1	25	58	1	21	93
Eiddo ac Adfywio	0	6	2	1	10	107	3	23	129
Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru	2	5	8	5	18	148	1	26	187
Gwasanaethau Gofal Stryd	10	11	15	7	32	363	8	91	446
Gwasanaethau Cymdeithasol Iechyd a Thai									
Gwasanaethau Oedolion	16	12	17	5	50	405	17	54	522
Gwasanaethau Busnes	0	3	4	3	8	79	1	22	98
Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc	9	6	13	3	45	221	1	71	298
Tai a Chymunedau	0	2	3	1	12	71	1	14	90
Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol									
Gwasanaethau Digidol	3	1	1	0	7	71	1	20	84
Gwasanaethau Ariannol	2	4	3	0	9	127	0	14	145
Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd	4	2	5	1	15	54	0	18	81
Pobl a Datblygu Sefydliadol	2	3	6	1	9	87	2	24	110
Cyfanswm	77	74	135	44	346	2533	71	667	3280

Cwynion

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion trwy Gomisiynydd y Gymraeg nac yn uniongyrchol i'r Cyngor yn ystod 2023-2024.

Cafwyd penderfyniad ynghylch y gŵyn ganlynol yn ystod 2023-2024:

- CS114 – Ymgynghoriad ynghylch cau tair ysgol cyfrwng Saesneg i greu ysgol newydd ar gyfer tua 700 o blant ym Mhontardawe. Honiad y gŵyn oedd bod y Cyngor heb gynnwys Asesiad Effaith ar y Gymraeg yn rhan gyntaf y broses ymgynghori. Mae hefyd yn cyfeirio at yr Asesiad Effaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, nad oedd ar gael i'r cyhoedd, ac felly ni chafwyd cyfle i gyflwyno sylwadau ar yr asesiad hwnnw. Canfu'r Comisiynydd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 91, gan nad oedd y ddogfen ymgynghori yn ystyried yn ddigonol effeithiau posibl y penderfyniad polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a gofalu nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol.

Ar ôl apelio i Dribiwnlys y Gymraeg, derbyniodd y Cyngor yr argymhellion a gafwyd yn hysbysiad y penderfyniad.

Mesurau

Cyfieithiadau	2021-2022	2022-2023	2023-2024
Cyfanswm cost cyfieithiadau (lle gellir nodi hynny)	£39,573	£46,701	£89,735
Nifer y ceisiadau am gyfieithu a dderbyniwyd gan yr uned gyfieithu	815	N/A	N/A

Galwadau Ffôn	2021-2022	2022-2023	2023-2024
Nifer y staff â sgiliau iaith rhugl/cymharol rugl a nodwyd yn y cyfeirlyfr cyflogaion	146*	125	125
Amser ar gyfartaledd i ateb galwadau ffôn – Saesneg	44 seconds	65 seconds	48 seconds
Amser ar gyfartaledd i ateb galwadau ffôn - Cymraeg	57 seconds	81 seconds	71 seconds

Mae ein hamserau aros ar gyfartaledd wedi gostwng ers 2022-2023.

Penodwyd siaradwr Cymraeg sydd, ar ôl cael cyfnod o hyfforddiant, wedi ymgymryd â dyletswyddau amser llawn, ac felly wedi cyfrannu at leihau amserau aros.

Mae lleihau oriau agor ein derbynfydd wedi rhyddhau staff sy'n medru'r Gymraeg i ofalu am y ffonau rhwng 8.30am – 9.00am a 4.30pm – 5.00pm, er mwyn sicrhau bod rhywun ar gael bob amser i ateb galwadau yn Gymraeg.

Cyfryngau Cymdeithasol	2021-2022	2022-2023	2023-2024
Twitter (dilynwyr)			
Cyfrif corfforaethol Saesneg	16,584	17,107	17,131
Cyfrif corfforaethol Cymraeg	431	476	520
Facebook (dilynwyr)			
Cyfrif corfforaethol Saesneg	17,704	21,273	22,596
Cyfrif corfforaethol Cymraeg	141	236	313

E-gylchlythyr Newyddion CnPT Nifer y tanysgrifwyr	2021-2022	2022-2023	2023-2024
E-gylchlythyr Cymraeg	17	20	95
E-gylchlythyr Saesneg	2,186	2,480	2769
E-gylchlythyr dwyieithog	48	63	N/A

Mesurau (parhad)

Gwefn	2021-2022	2022-2023	2023-2024
Cyfanswm nifer y trawiadau ar y wefan	4,009,274	5,188,512	5,197,608
Trawiadau ar dudalennau gwe yng Nghymru	29,177	25,675	18,588*
* Oherwydd newidiadau i ddadansoddeg Google, bu cyfnodau lle nad oedd modd gwahaniaethu rhwng ymweliadau â'r fersiynau Cymraeg a Saesneg. Mae'r broblem honno bellach wedi'i datrys yn ein gwefan newydd, lle mae modd dadansoddi'n fwy hwylus.			

Sgiliau Iaith	2021-2022	2022-2023	2023-2024
Siarad ac ysgrifennu'n weddol rugl	79	81	77
Siarad yn weddol rugl	80	74	74
Siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl	137	139	135
Siarad Cymraeg yn rhugl	50	53	44
Dysgu Cymraeg	400	367	346

Swyddi Gwag - Sgiliau Iaith	2021-2022	2022-2023	2023-2024
Dymunol	181	150	123
Hanfodol	8	29	22
Dim angen sgiliau Cymraeg	438	712	716
Angen dysgu Cymraeg	0	5	4

Cwynion	2021-2022	2022-2023	2023-2024
Nifer y cwynion a dderbyniwyd trwy Gomisiynydd y Gymraeg	6	1	0
Nifer y cwynion lle barnodd Comisiynydd y Gymraeg nad oedd angen cynnal ymchwiliad	2	1	0
Nifer y cwynion lle penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg nad oedd methiant i gydymffurfio â'r safonau	3	N/A	0

Lleisio Barn

Rydyn ni'n croesawu ymholiadau neu adborth ar yr adroddiad hwn:

Trwy e-bost: policy@npt.gov.uk

Trwy'r Post:

Y Prif Weithredwr,

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot,

Y Ganolfan Ddinesig,

Port Talbot,

SA13 1PJ

Cyfryngau Cymdeithasol:

Dilynwch ni ac ychwanegwch eich sylwadau ar dudalen [Facebook](#) y Cyngor:



Dilynwch yr adroddiad hwn ac ychwanegwch eich negeseuon Trydar ar ein [Tudalen Twitter](#)



Dilynwch ni ar [Instagram](#)

